

Ni fydd Prifysgol Aberystwyth yn gwahaniaethu ar unrhyw adeg yn erbyn pobl ar sail eu hunaniaeth o ran rhywedd na'u mynegiant rhywedd.

Lle mae'r polisi hwn yn cyfeirio at "bobl drawsryweddol", y mae'n golygu ystod eang o bobl nad yw eu hunaniaeth o ran rhywedd yn cael ei mynegi mewn ffyrdd sy'n cael eu cysylltu'n arferol â'r rhyw a ddynodwyd adeg eu genedigaeth. Mae'n cynnwys y rhai hynny â hunaniaeth anneauidd, ddi-ryw neu rywedd hylifol. Caiff staff, myfyrwyr ac ymwelwyr trawsryweddol eu trin yn deg ac yn unol ag ymrwymadau Prifysgol Aberystwyth o dan gyfraith cydraddoldeb.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn dathlu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ei gweithlu a chorff ei myfyrwyr, ac o'r farn y bydd Prifysgol Aberystwyth yn elwa o gyflogi pobl drawsryweddol ym mhob math o gyfrifoldebau. Bydd hyn o gymorth wrth ddarparu modelau rôl i staff ac i fyfyrwyr. Bydd Prifysgol Aberystwyth yn trin ei holl weithwyr a'i myfyrwyr â pharch gan geisio darparu amgylchedd gweithio a dysgu cadarnhaol heb fod ynddo wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth.

Bydd Prifysgol Aberystwyth yn ymgymryd â'r isod:

- Bydd Prifysgol Aberystwyth yn parchu cyfrinachedd yr holl staff a myfyrwyr trawsryweddol, ac ni fydd yn datgelu gwybodaeth heb gytundeb blaenorol yr unigolyn.
- Bydd Prifysgol Aberystwyth yn darparu amgylchedd cefnogol i staff a myfyrwyr sy'n dymuno i'w statws fel unigolion trawsryweddol fod yn hysbys. Fodd bynnag, yr unigolyn fydd â'r hawl i benderfynu a yw'n dymuno bod yn agored ynglŷn â'i hunaniaeth o ran rhywedd, statws trawsryweddol neu hanes trawsryweddol. Mae datgelu statws trawsryweddol unigolyn heb ei ganiatâd yn fath o aflonyddu a all gael ei ystyried, mewn sawl cyd-destun, yn drosedd.
- Ni fydd staff yn cael eu heithrio rhag cyflogaeth na dyrchafiad na chael eu hadleoli yn groes i'w dymuniadau oherwydd eu hunaniaeth o ran rhywedd.
- Ymdrinnir â cheisiadau i newid cofnodion enw a rhywedd yn brydlon a gwneir staff a myfyrwyr yn ymwybodol o oblygiadau'r newidiadau. Ymdrinnir â hynny yn gwbl gyfrinachol gan y timau angenrheidiol.
- Bydd Prifysgol Aberystwyth yn gweithio tuag at ddefnyddio rhagenwau a theitlau sy'n niwtral o ran rhywedd yng nghofnodion staff a myfyrwyr.
- Bydd staff a myfyrwyr sy'n mynychu sesiynau ymgynghorol, ac yn cael llawdriniaeth neu driniaeth feddygol sy'n ymwneud â chadarnhau rhywedd, yn derbyn cefnogaeth bwrpasol gan Brifysgol Aberystwyth i gwrdd â'u hanghenion penodol yn ystod y cyfnod hwn.
- Ni chaiff mynediad i gyrsiau, na symud ymlaen i gyrsiau eraill, na thriniaeth deg a chyfartal ar gyrsiau eu gwrthod i fyfyrwyr oherwydd eu hunaniaeth o ran rhywedd neu oherwydd eu bod yn bwriadu, neu wedi trawsnewid. Mae hynny'n cynnwys agweddau o'u cwrs ar y campws ac mewn lleoliadau eraill a ystyrir yn elfen angenrheidiol o'u hastudiaethau.
- Ni fydd y cwricwlwm yn dibynnu ar nac yn atgyfnerthu rhagdybiaethau ystrydebol ynglŷn â phobl drawsryweddol, a bydd deunyddiau o fewn i gyrsiau a modiwlau

perthnasol yn cynrychioli pobl drawsryweddol a bywydau trawsryweddol yn gadarnhaol.

- Wrth ddarparu llety i fyfyrwyr, bydd unrhyw bryderon neu broblemau a godir gan fyfyrwyr trawsryweddol yn cael eu trin gan y swyddfa llety ar gyfer llety sy'n cael ei ddarparu gan y Brifysgol, a chan yr aelod staff sy'n gyfrifol am lety oddi ar y safle fel elfen gydnabyddedig o gwrs (gyda chefnogaeth Hyrwyddwr Cydraddoldeb yr Athrofa).
- Mae cam-drin, aflonyddu neu fwlio trawsffobig (yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i alw enwau/sylwadau dirmygus, ymddygiad annerbyniol neu annymunedig, cwestiynau busneslyd) yn droseddau disgyblu difrifol a fydd yn cael eu trafod yn unol â'r weithdrefn briodol.

<https://www.aber.ac.uk/cy/hr/policy-and-procedure/disciplinary/>  
<https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/student-rules-regs/>  
<https://www.aber.ac.uk/cy/hr/policy-and-procedure/dignity/>  
<https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/student-info/> (rhif 23)

- Ni fydd propaganda trawsffobig, ar ffurf deunydd ysgrifenedig, graffiti, cerddoriaeth neu areithiau, yn cael ei ddioddef. Mae Prifysgol Aberystwyth yn addo dileu propaganda o'r fath pryd bynnag, ble bynnag ac ym mha ffurf bynnag.
- Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnwys materion hunaniaeth o ran rhywedd yn ei hyfforddiant ar gydraddoldeb i'r holl staff.
- Mae Prifysgol Aberystwyth yn croesawu a bydd yn darparu cyfleusterau priodol ar gyfer grwpiau myfyrwyr a staff trawsryweddol.
- Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnwys hunaniaeth o ran rhywedd mewn arolygon agwedd mewnol, ac wrth fonitro cwynion ynglŷn ag aflonyddu. Bydd ymgynghori ar newidiadau polisi ac agweddau eraill ar fywyd prifysgol yn digwydd gyda'r rhwydweithiau Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol mewnol, ac â'r rhwydweithiau allanol perthnasol.
- Bydd Prifysgol Aberystwyth yn sicrhau bod yr amgylchedd, o ran ei luniau, delweddau, deunydd a thafenni cyhoeddusrwydd, yn adlewyrchu amrywioldeb ei staff a'i myfyrwyr.

#### Nodyn

Ysgrifennwyd y datganiad polisi uchod ar y cyd rhwng AD, Undebau Llafur, Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a'r Cyfarwyddwr Cydraddoldeb ac fe'i seiliwyd ar ganllawiau a gyhoeddwyd gan yr Uned Her Cydraddoldeb (2016)

Ebrill 2017